

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Adroddiad ymchwil 114

Profiadau tai

pobl anabl ym

Mhrydain

Madhu Satsangi, Dianne Theakstone, Peter Matthews, Julia Lawrence a Kirstein Rummery (Prifysgol Stirling), Sheila Mackintosh a Subitha Baghirathan (Prifysgol Gorllewin Lloegr), a Gail Boniface (Prifysgol Caerdydd)

Mai 2018



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Crynodeb gweithredol

Canfyddiadau allweddol

- Mae ein hymchwil ansoddol gyda phobl anabl yn arddangos nifer o ffactorau allweddol ar gyfer byw'n annibynnol yn llwyddiannus: nodweddion hygrychedd megis ceginau ac ystafelloedd ymolchi wedi eu haddasu; teimlad o ddiogelwch a diogeledd; bod mewn lleoliad da gyda mynediad at siopau, trafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus; cefnogaeth gan deulu a ffrindiau; cymdogion da; a rhyddid rhag aflonyddu.
- Wrth chwilio am gartrefi hygrych, yr heriau cyffredin a wynebai cyfranogwyr oedd: diffyg argaeledd ar draws pob daliadaeth; methiant darparwyr tai ac awdurdodau lleol i ddeall eu hanghenion ac i gyfathrebu'n briodol; anawsterau hygrychedd gyda ffurflenni cais am dai; rhwystredigaeth gyda systemau dyrannu; a dirywiad mewn lles meddyliol a achosir gan y straen o fyw mewn llety anaddas ac wynebu dyfodol ansicr.
- Er bod nifer o'r cyfranogwyr yn byw mewn cartref hygrych ar adeg y cyfweliad, roedd rhai wedi byw mewn eiddo anaddas am gyfnodau hir o amser – mewn ambell achos, am flynyddoedd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod llety priodol naill ai ddim ar gael neu ddim yn fforddiadwy.
- Roedd cael gwneud addasiadau i'r cartref yn cymryd amser hir, ac roedd rhai cyfranogwyr wedi ei chael yn her i gaffael y newidiadau angenrheidiol. Awgrymodd cyfweliadau fod tenantiaid tai cymdeithasol yn dueddol o'i chael yn haws na thenantiaid preifat neu berchnogion cartrefi i gael addasiadau. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y gefnogaeth a chymorth a gynigir gan gymdeithasau tai.
- Mae gwasanaethau tai a chefnogaeth sydd wedi eu rheoli'n dda, naill ai'n wirfoddol neu statudol, yn cael effaith bositif ar ddeilliannau tai

cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd profiadau gyfranogwyr o'r gwasanaethau hyn yn amrywio'n sylweddol.

- Roedd adnoddau ariannol cyfranogwyr, lefel hyder a sgiliau cyfathrebu yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau tai digonol ac addas. Cafodd unigolion mwy cyfoethog, mwy hyderus fwy o lwyddiant o ran llywio'r gwasanaethau hyn a chaffael y cartref roeddynt ei eisiau.
- Roedd canfod tai addas, hygyrch wedi helpu trawsnewid bywydau cyfranogwyr er gwell. Roedd goblygiadau positif yn cynnwys gwella iechyd a lles, a gwell rhagolygon ar gyfer cyflogaeth ac astudio.
- Mae ein hadolygiad tystiolaeth (Atodiad 1) yn cefnogi'r casgliadau o'r ymchwil ansoddol ynghylch yr anfanteision mae pobl anabl yn wynebu yn y farchnad dai.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys casgliadau o ddau ddarn o ymchwil a gyflawnwyd yn 2017 i brofiadau tai pobl anabl ym Mhrydain. Roedd y prif ddarn o ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau manwl gyda 51 o gartrefi yn cynnwys unigolion anabl yn ardal Bryste, Canol yr Alban a De Cymru. Roedd y cyfweiliadau gydag unigolion anabl neu, os oedd yr unigolyn anabl yn blentyn, ei riant. Nodwyd cyfranogwyr trwy gysylltu â sefydliadau tai ac anabled, a oedd trwy ddiffiniad yn eithrio'r rhai nad oeddynt yn hysbys i asiantaethau allweddol.

Roedd y 51 o gartrefi a gynhwyswyd yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion, ond ni fwriadwyd iddynt gynrychioli pobl anabl yn byw ym Mhrydain heddiw. Fe wnaethom samplu ardaloedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i archwilio a adroddwyd unrhyw newidiadau yn seiliedig ar yr amrywiol fframweithiau polisi lleol a chenedlaethol. Roedd y themâu a phrif gasgliadau yn gyffredinol debyg ar draws y tair ardal ddaearyddol, ac ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig, ond rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau i gasgliadau a grëwyd gan feintiau sampl bach.

Roedd yr ail ddarn o ymchwil yn cynnwys adolygiad o ddata o'r Cyfrifiad o'r Boblogaeth, arolygon tai a chyflwr tai cenedlaethol unigol, a llenyddiaeth academaidd a pholisi/ymarfer a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd cyn yr ymchwil.

Rhoddir crynodeb o'r adolygiad hwn isod ac mewn mwy o fanylder ym Mhennod 2. Ei brif ddibenion yw sefydlu'r cefndir ar gyfer, a hysbysu datblygiad yr ymchwil ansoddol, ac darparu cyd-destun ar gyfer casgliadau'r cyfweiliadau. Mae'r adolygiad tystiolaeth wedi ei gynnwys yn llawn yn Atodiad 1.

Casgliadau'r cyfweiliadau

Y daith hir i gartref hygyrch

Canfu ein hymchwil gyda phobl anabl a rhieni plant anabl fod eu dyheadau tai yn aml yn ddim gwahanol i'r rhai y byddai pobl nad ydynt yn anabl yn eu disgwyl. Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi diogelwch a diogeledd, cysylltiadau trafniadaeth da a chymdogion cyfeillgar. Fodd bynnag, cododd dewisiadau eraill oed yn ymwneud yn benodol ag anabledau'r cyfranogwyr: er enghraifft, roedd galw mawr am geginau ac ystafelloedd ymolchi hygyrch. Roedd agosatrwydd at rwydweithiau cefnogaeth hefyd yn bwysig i'r rhai a gyfwelwyd gennym, gyda nifer o bobl yn datgan fod hyn wedi dylanwadu ar eu dewis o leoliad cartref.

Roedd nifer o gyfranogwyr wedi llwyddo i ddod o hyd i gartref oedd yn bodloni eu hanghenion, ond roedd rhai o'r unigolion a gyfwelwyd wedi treulio cyfnodau hir o amser mewn eiddo anaddas. Roedd pobl anabl yn y sectorau rhent preifat a chymdeithasol yn fwy tebygol o fod wedi profi tai gwael na pherchnogion cartrefi anabl. Er bod gan berchnogion cartrefi yn gyffredinol fwy o ddewis a rheolaeth dros eu tai, roedd nifer wedi wynebu anawsterau arwyddocaol wrth brynu cartrefi hygyrch, yn arbennig o fewn ystod prisiau fforddiadwy. Roedd yn rhaid i nifer o gyfranogwyr benderfynu a oeddynt am brynu eiddo penodol neu beidio mewn cyfnod byr iawn o amser. Hefyd, roedd datblygiad nam wedi gorfodi rhai cyfranogwyr i wneud newidiadau sydyn i'w trefniadau byw.

Dywedodd cyfranogwyr lluosog eu bod wedi teimlo'u bod yn cael eu gorfodi i dderbyn tai anaddas os mai dyma'r unig ddewis oedd ar gael. Disgrifiodd y cyfranogwyr hyn eu bod yn cael eu 'dal'; nad oedd yr awdurdod lleol bellach yn eu hystyried i fod yn flaenoriaeth o ran angen. Roedd nifer o bobl gyda nam ar eu symudedd wedi symud o lety rhent preifat anaddas i olyniaeth o hosteli neu fflatiau llawr uchaf sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor cyn cael y llety cywir o'r diwedd.

Datgelodd y cyfweiliadau nifer o brofiadau oedd yn arddangos ymhellach effaith byw mewn tai anaddas. Roedd tai anaddas yn cynyddu'r risg o ddamweiniau, yn arwain at straen a salwch ac yn cyflwyno costau i wasanaethau iechyd. Adroddodd nifer o

bobl eu bod yn syrthio neu'n cael anhawster anadlu wrth ddringo'r grisiau neu gerdded pellter i'w car. Roedd tai gwael hefyd wedi cael effaith arwyddocaol ar ofalwyr, oedd yn aml yn adrodd straen a phroblemau iechyd dilynol. Roedd cyflwr gwael, dirywiedig eiddo, diffyg cefnogaeth gymdeithasol, cyfyngiadau ariannol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gymdogion yn cael eu hystyried i fod yn arbennig o niweidiol i lesiant cyfranogwyr. Roedd problemau o'r fath yn aml wedi achosi dirywiad mewn iechyd. Roedd y straen ychwanegol o geisio symud tŷ yn aml cynyddu'r effeithiau negyddol hyn.

Roedd mwyafrif yr unigolion yn ein sampl yn ddyfeisgar, llafar ac yn teimlo fod ganddynt sgiliau trafod da. Er gwaethaf hyn, yn gyffredinol roeddynt wedi gorfod brwydro am beth amser i gael tai hygyrch. Mae unigolion sydd heb fanteision tebyg yn debygol o wynebu hyd yn oed mwy o heriau i ganfod tai addas.

Gosod addasiadau i'r cartref

Roedd nifer o gyfranogwyr wedi cyflawni addasiadau i'w cartrefi. Roedd rhai addasiadau yn angenrheidiol i ddelio â phroblemau presennol, ac roedd rhai wrth ragweld y byddai anabledd yn dod yn fwy difrifol. Adroddodd gyfranogwyr brofiadau amrywiol yn y broses o gaffael addasiadau. Siaradodd nifer yn bositif am brofiadau gyda gwasanaethau Gofal a Thrwsio (sefydliadau sy'n cefnogi pobl hŷn ac anabl i addasu eu cartrefi).

Mae cymdeithasau tai yn dueddol o gynnig cefnogaeth gyda'r broses o ymgeisio am addasiad, sy'n golygu fod preswylwyr tai cymdeithasol yn adrodd ei bod yn haws cael gosod addasiadau na thenantiaid preifat neu berchnogion cartrefi. Roedd y cyfweiliadau hefyd yn dynodi fod landlordiaid preifat weithiau'n gyndyn i wneud newidiadau oherwydd yr anghyfleuster a chost ddeongledig, ac roedd perchnogion yn aml ddim yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Er gwaethaf hwylustod cymharol, disgrifiwyd y broses ar gyfer caffael addasiadau mewn tai cymdeithasol fel un faith, ac roedd cyfranogwyr yn aml yn cael anhawster cael y newidiadau roeddynt angen.

Pwysigrwydd tai lleol a gwasanaethau cefnogaeth

Datgelodd cyfweiliadau ar draws tair ardal yr astudiaeth ddarlun cymysg o wasanaethau tai. Adroddodd cyfranogwyr eu bod yn ei chael yn anodd gwybod gyda phwy ddylent gysylltu ac angen dyfalbarhad i gael canlyniadau. Soniodd nifer am y broses anodd a maith i fael tai priodol, gan ddisgrifio sut yr oeddynt yn teimlo wedi eu caethiwo mewn tai anaddas heb fawr o obaith o allu ail-leoli.

Yn aml roedd cwmpas a safon gwasanaethau lleol yn cael effaith arwyddocaol ar ddeilliannau tai cyfranogwyr. Roedd mynediad at dai cymdeithasol priodol, cynlluniau gosod seiliedig ar ddewis clir, cyngor a chefnogaeth o safon, ac ymwneud adeiladol sefydliadau eraill (fel asiantau tai ac asiantau gosod) oll yn cyfrannu'n bositif i allu cyfranogwyr i ganfod cartref hygyrch. Nododd cyfranogwyr a oedd wedi cael mynediad at gefnogaeth ac eiriolaeth y sector gwirfoddol ei fanteision arwyddocaol, ond roedd cyfranogwyr hefyd yn disgrifio'r ddarpariaeth o'r gefnogaeth hon fel anghyson a chyfyngedig.

Roedd adnoddau ariannol cyfranogwyr, lefel hyder a sgiliau cyfathrebu yn chwarae dylanwadu ar pa mor llwyddiannus oeddynt o ran gallu nodi, a chael mynediad at, dai priodol. Roedd nifer o'r bobl a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn addysgedig, rhugl a hyderus. Ni lwyddodd y manteision hyn i'w hatal rhag ei chael yn anodd canfod eu ffordd trwy wasanaethau cymhleth a chael tai priodol.

Effeithiau byw'n annibynnol a thai priodol

Ar gyfer y bobl a gyfwelwyd gennym, roedd sawl ffactor yn hysbysu'r gallu i fyw'n annibynnol: budd-daliadau anabledd digonol, gofal cymdeithasol priodol, cymorth hunangyfeiriedig (SDS), a chefnogaeth gan therapyddion galwedigaethol, technolegau cynorthwyol a gwasanaethau Gofal a Thrwsio.

Roedd cyfranogwyr oedd wedi eu hailgartrefu mewn cartrefi priodol, hygyrch yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi setlo ac, yn aml, yn adrodd gwelliannau yn eu hiechyd corfforol a meddyliol. Nododd rhai cyfranogwyr leihad mewn dibyniaeth ar alcohol, ac adroddodd eraill eu bod wedi manteisio ar gyfleoedd astudio a datblygu busnes.

Astudiaethau achos

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn ein hymchwil wedi llwyddo i ganfod ateb i'w problemau tai. Fodd bynnag, roeddynt wedi gorfod goresgyn rhwystrau sylweddol ar hyd y ffordd, fel y gwelir yn yr achosion canlynol. Gellir gweld astudiaethau achos mwy manwl ar ddiwedd Penodau 3, 4 a 5.

- Roedd Simon, gŵr ifanc gydag awtistiaeth, epilepsi, anawsterau dysgu ac ychydig o gyfathrebu llafar, angen cartref gyda lle digonol a gweithwyr cymorth arbenigol a allai hwyluso ei drosiant o fyw gyda'i deulu. Dywedodd ei weithiwr cymdeithasol wrth Simon na allai 'ddewis a dethol' ble roedd yn byw. Arweiniodd y gefnogaeth annigonol gan eu hawdurdod lleol i deulu Simon

ystyried ail-forgeisio eu cartref er mwyn prynu fflat i Simon, ond yna fe gynigiwyd lle iddo mewn cymdeithas dai gan yr awdurdod lleol.

- Roedd nifer o gyfranogwyr wedi cael anhawster gyda grisiau. Roedd Struan, defnyddiwr cadair olwyn a pherchennog cartref, wedi methu dod o hyd i fyangalo hygyrch, fforddiadwy yn ei ardal leol. Roedd y dewisiadau fforddiadwy i Struan yn rhy fach a gyda choridorau rhy gul ar gyfer ei gadair olwyn. O ganlyniad, roedd wedi byd am saith mlynedd yn ei gartref blaenorol, yn ymdopi gyda'r grisiau ar ei ddwylo a'i bengliniau. Roedd Leon, gŵr ifanc oedd wedi gofalu dros dro am ei fam oedd yn derfynol wael, hefyd wedi cael profiad o gartref heb addasiadau priodol. Cyn i staff hosbis helpu Leol i gael addasiadau, roedd wedi gorfod cario ei fam i fyny ac i lawr y grisiau i'w gwely ac i'r toiled.
- Roedd Avril, defnyddiwr cadair olwyn yn byw ar ei phen ei hun, eisiau dod o hyd i gartref hygyrch yn agos at ei rhwydweithiau cefnogaeth. Adroddodd Avril nad oedd gan yr asiantaethau tai y bu mewn cysylltiad â nhw unrhyw wybodaeth nac ymwybyddiaeth o anghenion pobl anabl. Arweiniodd yr opsiynau cyfyngedig mewn marchnad gystadleuol iddi gael cartref oedd â digon o le i lywio ei chadair olwyn, ond a oedd angen addasiadau helaeth pellach. Gwariodd Avril ei chynilion ei hun ar addasiadau i'r cartref yn hytrach na wynebu cyfnod aros maith posibl am grant cyfleusterau i'r anabl gan yr awdurdod lleol.
- Dywedwyd wrth Brooker, defnyddiwr cadair olwyn yn byw ar ei ben ei hun, gan ei awdurdod lleol y gallai ei gais am gartref gael ei dynnu o'r rhestr flaenoriaeth gan ei fod wedi gwrthod cynigion llety a deimlai nad oedd yn addas i'w ofynion anabledd. Roedd Brooker wedi yn ddiodefwr troseddau casineb gan deulu lleol ac ni wnaeth y gymdeithas dai ymateb i'w bryderon. Fe setlodd yn y diwedd mewn cartref wedi ei addasu wedi byw mewn cartref anaddas am gyfnod estynedig o amser.
- Rhoddodd Emma, sy'n fam i blentyn anabl yn defnyddio cadair olwyn, y gorau i waith llawn amser i ofalu am ei merch ac nid oedd yn gallu fforddio addasiadau i fodloni anghenion ei merch. Canfu Emma fod eiddo rhent preifat addas yn brin ac y byddai prynu eiddo arall yn rhy ddrud. Adroddodd Emma, er iddi dderbyn statws blaenoriaeth uwch (fel mam sengl gyda phlentyn anabl a phlentyn arall nad yw'n anabl yn byw mewn eiddo anhygyrch), roedd wedi aros am bum mlynedd ar y rhestr aros tai cymdeithasol.

- Roedd Fiona yn dioddef niwed i'w nerfau, sgoliosis ac anhawster wrth gerdded wedi tynnu crawniad sbinol. Fe fu am 10 mis mewn ysbyty adferiad gan sylweddoli na fyddai ei fflat perchnogaeth breifat yn bodloni ei anghenion hygyrchedd. Penderfynodd Fiona symud i ddatblygiad tai gwarchod cymdeithasol hygyrch, ond roedd yn rhaid iddi aros yn yr ysbyty am ddau fis arall nes y daeth eiddo addas ar gael. Roedd Fiona yn cydnabod y byddai prynu cartref yn peryglu ei hawl i ofal cymdeithasol am ddim, a phenderfynodd aros mewn datblygiad tai gwarchod cymdeithasol hygyrch i sicrhau, ar ei marwolaeth, y byddai ei harian yn mynd yn uniongyrchol i'w phlant i'w helpu i brynu eu heiddo eu hunain.
- Roedd Quinton, defnyddiwr cadair olwyn, wedi cael ei hun yn gaeth i'w gartref mewn cartref anhygyrch am 12 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Quinton wedi byw mewn ystafell sengl yn eiddo ei wraig oherwydd grisiau'r tŷ a diffyg lle i'w gadair olwyn symud rhwng ystafelloedd. Casglodd asesiad a gyflawnwyd gan bensaer a therapydd galwedigaethol nad oedd strwythur ffisegol na chynllun yr eiddo yn addas ar gyfer addasiadau. Disgrifiodd Quinton 'frwydr anodd iawn' gyda'r awdurdod lleol i symud i gartref cymdeithasol hygyrch a gallu byw'n annibynnol. Wedi ymchwilio i'r opsiwn o ranberchnogaeth dan arweiniad Housing Options Scotland (HOS), sicrhodd Quinton eiddo y gellid ei addasu i'w anghenion. Disgrifiodd Quinton y profiad o gael y lefel briodol o ofal cymdeithasol oedd yn bodloni anghenion ei gartref fel 'brwydr' faith.

Canfyddiadau adolygiad tystiolaeth

Mae'r uchafbwyntiau canlynol o'r adolygiad tystiolaeth yn cyffwrdd ar themâu tebyg i'r rhai a godwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn ein hymchwil:

- Roedd pobl anabl yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain yn y cyfnod 2012–14 na phobl nad oeddynt yn anabl (62.6% i 76.2%). Roedd pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl yn llawer llai tebygol o fod yn berchnogion preswyl na'r boblogaeth yn gyffredinol (EHRC, 2017b).
- Mae tua 2% o aelwydydd Prydain yn cynnwys person anabl sy'n byw mewn cartref anaddas. Gellid delio â'r rhan fwyaf o broblemau mewn tai anaddas trwy wneud addasiadau rhad.

- Ledled Prydain, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn anfodlon gyda'u tai na phobl nad ydynt yn anabl. Mae pobl anabl yn mynegi'r cyfraddau isaf o foddhad. Y cartrefi hyn, a chartrefi gyda phlant anabl, sy'n wynebu'r amodau tai gwaethaf (EHRC, 2017b).
- Nid yw'n hawdd dod o hyd i gartref hygyrch. Dangosodd arolwg o 200 o bobl ifanc anabl a 12 grŵp ffocws ar draws Prydain fod ymatebwyr yn aros blynyddoedd i ganfod tai hygyrch (Trailblazers, 2012).
- Hyd yn oed os oes polisiâu da yn bodoli mewn awdurdodau lleol, a bod cartrefi hygyrch wedi eu hadeiladu, mae'n dal i fod yn anodd i bobl anabl gael gwybodaeth amdanynt (Chaffin-Edwards, 2015).
- Yn aml fe ystyrir mai cofrestrau tai cymdeithasol yw'r ateb i brinder cyflenwad. Datgelodd arolwg o awdurdodau lleol ar draws Prydain Fawr yn 2014 nad oedd gan 83% o gynghorau gofrestr (Leonard Cheshire Disability, 2014b). Dim ond 16% o gynghorau allai ddarparu unrhyw ddata ar y nifer o gartrefi yn eu hardal oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, a dim ond 10% allai ddarparu data ar y nifer o gartrefi a adeiladwyd i Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae cofrestrau yn ddruod i'w sefydlu; maent fel arfer yn cynnwys arolygon helaeth o eiddo nad yw'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn gallu fforddio eu cyflawni. Cafodd diwygiadau treth a lles yn y cyfnod 2010–17 effaith mwy andwyol ar aelwydydd anabl na rhai nad ydynt yn anabl. Ar gyfartaledd, mae newidiadau trethi a budd-daliadau yn gysylltiedig â theuluoedd gydag oedolyn anabl wedi lleihau incwm o tua £2,500 y flwyddyn; ar gyfer teuluoedd gyda phlentyn anabl, mae'r lleihad wedi bod dros £5,500 y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu i leihad o tua £1,000 ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn anabl (EHRC, 2017c).

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com.

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogaeth Cydraddoldeb, gwasanaeth am ddim ac annibynnol.

Gwefan	www.equalityadvisoryservice.com
Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 tan 19:00 (Llun i Wener) 10:00 tan 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018

ISBN: 978-1-84206-733-8

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018

ISBN: 978-1-84206-733-8